YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I YMGYNGHORIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR Y

**Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus**

Dyddiedig – Tachwedd 2020

Awdur – Gethin Morgan

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'ch barn ar y materion a ganlyn i ategu'r dystiolaeth lafar a gawn:

1. **Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.**

- Mae gan arweinyddiaeth a rheolwyr Cyngor Sir Ynys Môn ymwybyddiaeth o'r ddeddf a'i goblygiadau.
- Noder fod y 5 ffordd o weithio (tra falle ddim yn cael ei dystiolaethu yn flaenorol) wedi bod wrth wraidd gwaith y Cyngor Sir ers cyn 2017. e.e. rhaglen llywodraeth parthed ysgolion 21ain ganrif / gwaith datblygu cysylltiedig a pwerdy niwclear yn Wylfa Newydd.
    - Atal
    - Hirdymor
    - Integreiddio
    - Cydweithio
    - Cynnwys
- Rydym wedi ac yn parhau i wreiddio'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r 5 ffordd o weithio i mewn i'n gwaith yn ddyddiol gan geisio ei wneud mor berthnasol a phosib i bob lefel o'n gweithlu ac yn ei dystiolaethu. Mae hyn bellach yn egwyddor craidd ein gwiath dydd i ddydd sydd yn gyrru dull o weithio effeithiol ac effeithlon.
- Gellid tystiolaethu hynny drwy'n cynlluniau darparu gwasanaeth blynyddol / adroddiadau pwyllgorau gwaith a chraffu, yn ogystal a'r ffaith bod y 5 ffordd o weithio yn cael ei drafod yn ein fforymau rheolwyr sydd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- Noder for rhai elfennau o'r 5 ffordd o weithio yn haws i'w gwireddu nag eraill yn enwedig yn ystod y cyfnod sydd ohoni. e.e. gyda trefniadau rhithiol parthed busnes yn bodoli ar draws y sector gyhoeddus a'r angen I leihau ymgysylltiadau wyneb I wyneb, rhaid meddwl yn ddwysach ynglyn a sut i ymgynghori gyda trigolion ar faterion sydd angen penderfyniad.
- Mae'r Cyngor bob tro yn awyddus I ddysgu oddi wrth eraill ac i'r perwyl hynny wedi gofyn am arweiniad / arfer dda yn y maes hwn gan Archwilio Cymru.
- Yn amlwg, mae bob amser lle i wella ein hymwybyddiaeth ond y gred yw fod gennym sylfaen gadarn i weithio ohono i'r dyfodol er budd gwreiddio'r ymwybyddiaeth ymhellach.

2. **Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu defnyddio.**

- Nid oes adnoddau ychwanegol wedi'i clustnodi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhoi'r ddeddf ar waith, newid diwylliant, na casglu tystiolaeth ac adrodd.
- Mae'r disgwyliad o orfod ei weithredu drwy'r arian blynyddol a geir gan lywodraeth cymru ynghyd a'r swm o dderbynir drwy godi'r treth cyngor lleol.
- Tra bod yr hyn sydd yn ddisgwyliedig yn synhwyrol ac yn dilyn y modd y byddai'r sector gyhoeddus yn gweithio nid oes adnoddau ychwanegol wedi'i nodi ar gyfer gweithredu'n unol a'r ddeddf.
- Mae trawsnewid ffordd o weithio, gwreiddio egwyddorion ac ystyriaethau newydd a gwahanol wedi bod yn heriol iawn mewn cyfnod ble mae'r awdurdod (a Llywodraeth Leol) wedi gorfod gwneud arbedion ariannol, a lleihau capasiti ac arbenigedd yn sylweddol.
- Mae'r arbedion parhaol wedi ei gwneud yn anoddach fyth I Lywodraeth Leol wireddu disgwylaidau dydd i ddydd yn effeithiol, heb son am roi mwy o sylw, adnoddau, ac amser i ystyried a chynllunio am y dyfodol

3. **Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus.**

- Mae'r cymorth sydd yn cael ei roi gan swyddfa'r comisiynydd i gyrff cyhoeddus yn ddefnyddiol.
- Mae'r gwahanol dwlsynau sydd yn cael ei cynnig yn helpu i wreiddio'r dealltwriaeth ar draws y gweithlu.
- Mae'r angen i'r cymorth weithiau fod yn fwy pragmatig.
- Angen cydnabyddiaeth pellach i wella'r ymwybyddiaeth a'r gwahaniaeth rhwng delio gyda'r ddeddf mewn ardal drefol ynghyd a delio gyda'r ddeddf mewn ardal wledig (e.e. sefydlu llwybrau teithio beic (fel engraifft o arfer dda) ddim mor hawdd ei wireddu mewn ardal wledig)
- Mae'r cymorth ar disgwyliad ar brydiau i ymateb i ymholiadau gan y swyddfa wedi bod yn feichus o ystyried disgwyliadau statudol eraill sydd gan gyrff cyhoeddus ond credir fod y wybodaeth hynny wedi ei dderbyn gan y swyddfa a bod gwersi wedi'i dysgu ohonynt.
- Byddai swyddfa, capasiti ac arbenigedd yng Ngogledd Cymru'n fuddiol er mwyn cryfhau'r cydweithio, cefnogi, a rhannu ymarfer da.

4. **Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru**

- Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arweinyddiaeth gref I'w chwarae a cydnabyddir bod rhwystrau parthed gwireddu hynny.
- Credir bod y gweithdrefnau yn newid er budd ymgymryd a'r rol hynny.
- Noder mai un o gonglfeini y 5 ffordd o weithio yw'r cyd-weithio neu'r rhyngweithio a ddisgwylir rhwng sefydliadau cyhoeddus. Credir fod lle i hyn

wella o fewn gwahanol adrannau'r Llywodraeth ond bod sylfeini cadarn yn cael ei sefydlu yn gyfredol i ymgymryd a'r dasg hynny.

- Er yr angen a'r disgwyliad parhaus i gydweithio ac integreiddio ar draws y sector gyhoeddus, mae rhaid sicrhau bod atebolrwyrdd a'r disgwyliadau sydd ar bob corff cyhoeddus yn glir ac eglur
- Maent fel corff yn dangos sut eu bod yn gweithredu tuag at nodau'r ddeddf (7)
    - Cymru lewyrchus
    - Cymru gydnerth
    - Cymru sy'n fwy cyfartal
    - Cymru iachach
    - Cymru o gymunedau cydlynnus
    - Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
    - Cymru sy'n gyfrifol a'r lefel fyd-eang

  ond credir fod lle iddynt wella yn y ffordd y maent yn ymgymryd ac yn dangos eu bod yn cwrdd a'r 5 ffordd o weithio.

- Mae'r Llwyodraeth yn gosod targedau synhwyrol a heriol i fynd i'r afael ag amryw o'r nodau uchod e.e. carbon niwtral erbyn 2030 sydd yn galonogol ac yn dangos arweiniad clir

**5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**

- Adnoddau / dirwasgiad y Deyrnas Gyfunol, ar byd yn ei gyfanrwydd yn dilyn y pandemig.
- Fframwaith adrodd ar berfformiad dan fesur llywodraeth leol newydd sydd yn cymryd ystyriaeth o ddisgwyliadau'r ddeddf a'r dealltwriaeth bod gwaith atal / hirdymor yn waith sydd ddim yn dangos gwelliant dros nos.
- COVID-19 a'i effaith ar cymdeithasu wyneb yn wyneb
- Brexit – yr diffyg dealltwriaeth a'i gyfathrebiad o beth fydd yr effaith ar economi a busnesi'r wlad. Porthladd Caergybi yn cael ei amlygu yma.
- Disgwyliadau Llywodraeth y DU weithiau'n gwrthdaro a disgwyliadau Llywodraeth Cymru
- Diffyg y ddeddf o'i wneud yn statudol bwysig bod sefydliadau y sector breifat yn dilyn y cyfarwyddiadau.

**6. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.**

- Cefnogaeth parhaus i gyrff cyhoeddus wreiddio'r disgwyliadau ymhellach
- Lleihad yn y dibyniaeth sydd yn cael ei ddangos ar dystiolaethu rheolaidd sydd weithiau'n ofyniad uwchben disgwyliadau statudol eraill.
- Gwreiddio'r disgwyliadau i feysydd statudol a dewisol mwy eang sydd yn gysylltiedig a gwaith cynghorau.

- Cynyddu'r arlwy sydd ar gael parthed rhannu arfer dda a defnyddio cyrff cenedlaethol / rhanbarthol i ysgogi hynny 'mhellach.
- Ystyriaeth pellach ynglyn a sut y gellid ymgorffori'r disgwyliadau a'i wneud yn berthnasol i'r sector breifat.
- Dylanwadu ar bobl ifanc a sicrhau bod aliniad clir a phendant efo'r system addysg a dysgu (pob oed).
- Uchafu capasiti, dealltwriaeth ac arbenigedd penodol o fewn pob corff cyhoeddus er mwyn gallu dylanwadu.